

Cynllun Deg-Pwynt er Budd Cymunedau a Gweithredu dan Arweiniad y Gymuned Cytundeb gan Bartneriaid Gyda'n Gilydd Dros Newid Sir Benfro 2021-2026

Mae'r Cytundeb hwn yn egluro'r ffordd y bydd sefydliadau cymorth a gwasanaeth cymunedol Gyda'n Gilydd Dros Newid yn cydweithio, ac yn gweithio gyda chymunedau, i gyflawni rhaglen y mae lles yn ganolog iddi, tra'n canolbwyntio ar anghenion lleol. Fe'i cyflwynir fel cynllun deg-pwynt sydd wedi deillio o gyfarfodydd a gynhaliwyd gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn y cyfnod rhwng Mehefin a Hydref 2020.

Mae'r pandemig wedi ei wneud yn fater o raid i ni weithio'n agosach gyda'n gilydd. Mae grwpiau dan arweiniad y gymuned ynghyd â sefydliadau wedi dangos pa mor ddyfeisgar a hyblyg y maent yn gallu bod mewn cyfnod o argyfwng. Maent wedi chwarae rhan hollbwysig yn cefnogi eu poblogaethau ac yn rhannu arferion da er budd pobl eraill. Yn rhydd o lyffetheiriau biwrocratiaeth, mae sefydliadau rhyngol y sector cyhoeddus a'r trydydd sector hefyd wedi ymateb yn chwim, ac wedi darparu cymorth canolog mewn ffyrdd arloesol ac effeithiol. Mae'r agwedd o 'fedru gwneud' wedi gorchfygu, ac mae cydberthnasau wedi cryfhau wrth i sectorau gydymdrechu mewn ffordd ddigynsail. Drwy hyn i gyd, mae cymunedau wedi darganfod bod eu hanghenion wedi cael gwrandawriad cynyddol a hynny wedi arwain at weithredu.

Cawsom ein gorfodi i fyfyrto, yn ystod yr argyfwng dychrynlyd hwn, ar yr effeithiau cymhleth ac eang ar iechyd a lles pobl fel unigolion, grwpiau, teuluoedd a chymunedau lle. Mae'r syniad o gymuned wedi chwarae rhan ganolog yn y myfyrdodau hyn: sut i fod yn gryf, yn wydn ac yn ddyfeisgar. Taniwyd neu aildaniwyd diddordeb yn y modelau cymdeithasol a gwyrdd o les: sut rydym yn cysylltu â'n gilydd, a sut y gellir cynnal y cysylltiad; y defnydd a wnawn o'n hasedau lleol a pherchnogaeth yr asedau hynny; ein model economaidd, a sut y gellid ei wella; ffynonellau ein bwyd a hyd ein cadwyni bwyd; y defnydd a wnawn o'n gwasanaethau; ac yn y blaen.

Yr her sy'n ein hwynebu ni yn awr yw sut i adeiladu ar waddol cadarnhaol COVID-19 – i gynnal y grwpiau cymunedol newydd niferus sydd wedi dod i fodolaeth yn ystod y pandemig a sicrhau bod y rhai oedd yn bod eisoes yn dal ati â'u gwaith da. Ac yn bwysig, sut i ymadfer ac ailadeiladu ar gyfer cymdeithas well a thecach ac un lle mae cymunedau'n rhannu grym wrth benderfynu ar y polisiau sy'n effeithio arnynt.

Bwriad y cynllun deg-pwynt sy'n dilyn yw darparu gwybodaeth a bod yn sail i gynllunio strategol sefydliadau unigol a'r bartneriaeth.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

1. Cytuno ar fodel lles cymdeithasol a gwyrdd, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'i fabwysiadu i lywio ein cynlluniau, yng nghyd-destun polisi cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddwn hefyd yn datblygu gweledigaeth a strategaeth ar y cyd ar gyfer lles i ateb anghenion amrywiol y cymunedau seiliedig ar le o fewn Sir Benfro.
2. Gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig, gydlynol ac integredig i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau er mwyn cyflawni rhaglen ataliol i gefnogi lles.
3. Rhannu grym a chydgyhyrchu polisiâu a strategaethau gyda chymunedau – sut bynnag y'u diffinnir – i gyd-fynd â'r cyd-destun polisi, er mwyn sicrhau bod yr anghenion a fynegwyd ganddynt yn cael eu hateb yn gyson.
4. Rhoi blaenoriaeth o ran gweithredu i'r anghydraddoldebau niferus sy'n gyffredin yn ein poblogaeth, gan gynnwys y rheiny a wnaed yn waeth gan y pandemig.
5. Mynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r ymdrech i fyrhau cadwyni cyflenwi bwyd, nwyddau a gwasanaethau, a rhoi modelau caffael cynaliadwy ar waith, fydd yn gwella economïau lleol.
6. Adolygu anghenion ariannol grwpiau dan arweiniad y gymuned; gwneud prosesau ariannu'n syml ac yn gynhwysol; cefnogi a datblygu'r gallu lleol i godi arian; cyfrannu at greu cronfeydd buddsoddi cymdeithasol a chymunedol, a chefnogi cynhyrchu incwm cynaliadwy drwy drosglwyddo asedau i berchnogaeth y cymunedau.
7. Hyrwyddo twf ac effeithiolrwydd gweithredu ac arweinyddiaeth gymunedol drwy hwyluso dysgu ar y cyd, cyngor pwrpasol a chryfhau prosesau democrataidd lleol drwy roi llais cryfach i gymunedau wrth wneud penderfyniadau, sydd hefyd yn cynnwys pobl ifanc.
8. Hybu, cefnogi a dathlu gwirfoddoli ymhlith pobl o bob oed, gan gynnwys yn y gweithle.
9. Ymrwymo i'r newid mewn diwylliant sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r uchod; drwy arweinyddiaeth gref a chynlluniau trawsnewid sefydliadol.
10. Hybu polisiâu a chamau gweithredu cynhwysiant digidol ar gyfer pob cymuned a phob oedran.